Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

**Cartrefi Cymunedl Cymru**
**Community Housing Cymru**
**2 Ocean Way, Caerdydd/Cardiff, CF24 5TG**
**Ffôn/Tel: 02920 674 800**

Cofrestrwd dan y Ddeddf Cwmniau 1985
Registered under the Companies Act 1985
Rhif Cofrestru | Registration Number: **2380564**
Rhif Cofrestru Elusen | Charity Registration Number: **1128527**

# Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

**Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol hwn yn dynodi ein blaenoriaethau yng nghyswllt hill ac ethnigrwydd ac mae'n rhan o'n Strategaeth gynhwysfawr ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.**

I sicrhau y caiff y cynllun hyn ei gyflwyno'n effeithiol yn unol â'r strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chymhwysiant, yn y flwyddyn gyntaf yn:

- datblygu proses gweithredu a monitro
- datblgu dull i sicrhau fod digon o gapasiti ar gyfer gweithredu
- ymchwilio partneriaethau strategol i gynorthwyo  sicrhau deilliannau llwyddiannus.

Yn unol â'n strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Strategaeth, caiff y camau gweithredu dilynol eu gweld drwy lens croestoriadedd, ac mae'n rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r ffactorau economaidd-gymdeithasol wrth gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

| Amcan | Camau Gweithredu | Amserlen | Canlyniad |
| --- | --- | --- | --- |
| **Gweithgaredd eiriolaeth** | | | |
| **Sicrhau fod ein gwaith dylanwadu ar bolisi yn cynrychioli ac yn trafod anghenion y cymunedau hiliol amrywiol y mae'r cymdeithasau tai sy'n aelodau o CHC yn gweithredu ynddynt.** | Ymgynghori gydag aelodau ym mhob maes polisi ar faterion anghydraddoldeb a brofir ar lawr gwlad drwy ddarparu gwasanaeth mewn gwahanol gymunedau. | **Blwyddyn 1** | Rydym yn deall yn llawn yr amgylchedd y mae ein haelodau yn gweithredu ynddo a'r materion anghydraddoldeb hiliol mewn gwahanol rannau o Gymru. |
| | Sicrhau fod gan ein gweithgorau sy'n llywio ein dylanwadu polisi leisiau mwy amrywiol a chysylltiadau gyda ac yn cefnogi cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig. Fel rhan o hyn, byddwn yn asesu os yw ein grwpiau gwaith yn addas i'r diben wrth ymgysylltu â staff cymdeithasau tai wrth ddarparu gwasanaethau, neu os ydym angen fforwm arall i ganiatau rhwydweithio ar lefel is. | **Blynyddoedd 1–3** | Bydd mewnbwn gwerthfawr a chynyddol gyda rhai gyda phrofiad a gwybodaeth rheng flaen o anghydraddoldeb hiliol mewn gwahanol gymunedau yn dod â her i'r sector. |
| | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid strategol i:<br>» ymchwilio rôl CHC wrth gynnwys lleisiau pobl gyda phrofiadau bywyd yn ein gwaith eiriolaeth.<br>» cefnogi ein haelodau i hwyluso cyfranogiad pobl gyda phrofiadau bywyd mewn gwneud penderfyniadau. | **Blynyddoedd 1–3** | Rhoi ystyriaeth i effaith penderfyniadau polisi ac yn cael ei arwain gan anghenion y gymuned, nid yr hyn a ystyriwn i fod eu hanghenion. |
| | Wrth werthuso effaith penderfyniadau polisi, byddwn yn gweithio gydag aelodau i geisio barn grwpiau ymylol o bobl wrth gynnal ymatebion ymgynghori allanol. | **Blynyddoedd 1** | Byddwn yn rhoi gwybodaeth dda a chywir am sut y bydd penderfyniadau polisi yn effeithio ar gymunedau amrywiol. |
| | Fel rhan o ymrwymiad Gweithredoedd nid Geiriau Tai Pawb, byddwn yn anelu i liniaru effeithiau Covid-19 ar gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda chymdeithasau tai i sefydlu sylfaen tystiolaeth yng nghyswllt gorlenwi ac amodau tai ar gyfer rhai cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig. Defnyddiwn y dystiolaeth hon i gefnogi cymdeithasau tai yng Nghymru i weithredu ac i ddylanwadu ar eu hamgylchedd gweithredu er mwyn sicrhau ei bod yn eu helpu i gyflawni hyn. | **Blynyddoedd 1–5** | Cam yn nes at gyflawni ein gweledigaeth lle mae 'Cartref da yn hawl sylfaenol i bawb'. |
| | Rhoi cefnogaeth i'n haelodau i sicrhau y caiff anghenion gwybodaeth cyngor ac eiriolaeth pobl lleiafrif ethnig eu cyflawni yng nghyswllt tai a llety, yn arbennig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle gall hyn fod yn faes newydd o ffocws ar gyfer cymdeithasau tai. | **Blynyddoedd 1–5** | Safonau, darpariaeth a gwasanaethau ein haelodau yn gydnaws gyda Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb Hiliol. |

| Amcan | Camau Gweithredu | Amserlen | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu effeithlon** | Bydd sicrhau fod ein gwaith dylanwadu polisi yn trin ac yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn golygu fod angen elfen gyfathrebu ragweithiol i annog ymgysylltu ystyrlon a heb fod yn docenistaidd yn ein gweithgorau. Rydym yn rhoi sylw naturiol i'r arddull iaith a ddefnyddiwn wrth ymgysylltu gyda chymunedau ein hunain a byddwn yn cydweithio gydag eraill sy'n ddylanwadwyr dibynadwy o fewn y gymuned. | **Blynyddoedd 1–3** | Rydym yn ennill ymddiriedaeth ac yn dylanwadu ar ganlyniadau polisi y mae cymunedau yn hapus gyda nhw. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ymdeimlad o berthyn ac yn gysurus yn mynegi eu barn. |
| | Sicrhau fod y rhai sy'n rhannu profiadau bbyw yn cael eu cynnwys ar bob cam hollbwysig o weithredu/prosiectu e.e. gwerthuso'r camau gwithredu yn rheolaidd. | **Blynyddoedd 1–3** | |

| Amcan | Camau Gweithredu | Amserlen | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | **Cyfathrebu** | | |
| **Dangos ein cefnogaeth gyhoeddus i gydraddoldeb hiliol** | Lleisio cefnogaeth i staff Du, Asiaidd a Lleiafrif Cymunedol a phawb y byddwn yn gweithio gyda nhw yn allanol, ac ymrwymo i ymarfer gwrth-hiliol ac ymwybyddiaeth o heriau penodol sy'n wynebu'r sector.<br><br>Byddwn yn llofnodi polisi dim goddefgarwch Dim Hiliaeth Cymru a gweithredu'r ymrwymiadau a amlinellir gan y polisi o fewn y gweithle a'n bywyd dydd i ddydd. | **Blwyddyn 1** | Rydym yn ymroddedig i fod yn sefydliad gwrth-hiliol. |
| | Lansio ymgyrch sy'n arddangos amrywiaeth, profiad ac angerdd y bobl sy'n gweithio, gwirfoddoli ac a gaiff eu lletya gan y sector gan gysylltu hyn gyda Dyma'r Sector Tai. | **Blwyddyn 1** | Dangos cynnydd y sector.<br>Fel busnes cymdeithasol, rydym yn arwain wrth ddangos nad yw'n dderbyniol i amrywiaeth fod yn fater ar y cyrion. |
| **Gwneud yn siwr fod ein gweithgaredd cyfathrebu yn cynrychioli'r holl boblogaeth yng Nghymru** | Sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr/dylanwadwyr tai gyda chefndiroedd amrywiol i ddathlu tai cymdeithasol yng Nghymru. | **Blynyddoedd 1–3** | Cyfathrebu allanol yn fwy cynhwysol ac amrywiol. |
| | Gweithio'n agosach gyda'n partneriaid ac aelodau i ymestyn ein cronfa o lefarwyr. | **Blwyddyn 1** | |
| | Datblygu canllawiau arddull iaith ar gyfer y sefydliad cyfan. | **Blwyddyn 1** | Yr holl staff yn defnyddio'r canllawiau arddull fel bod holl gynnwys CHC yn defnyddio iaith gywir a chynhwysol. |
| | Datblygu canllawiau arddull iaith ar gyfer y sefydliad cyfan. | **Blwyddyn 1** | Pob delwedd cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys ystod amrywiaeth. |
| | Blogiau ac astudiaethau achos gan gyfranwyr amrywiol ac ar bynciau sy'n rhoi sylw i amrywiaeth yn y sector. | **Blwyddyn 1** | XX% o astudiaethau achos a blogiau yn amrywiol (ffigur i fod yn gymesur i'r boblogaeth tenantiaid). |
| **Y gallu i ymateb i her allanol mewn ffordd adeiladol ac iach** | Cydweithio gyda Tai Pawb i gydlynu ein dull. | **Blwyddyn 1** | Dull cliriach, llai ymatebol. |

| Amcan | Camau Gweithredu | Amserlen | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau a chynadleddau** | | | |
| **Amrywiaeth o gynadleddau, digwyddiadau a rhaglenni hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn sy'n fwy cynrychioladol o'r cymunedau a gefnogwn** | Ymestyn allan i ddarpar banelwyr/sefydliadau i weld os oes ganddynt gydweithwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig a fyddai'n addas fel siaradwyr | **Blwyddyn 1 yn gosod y sylfaen ar gyfer amrywiaeth y dyfodol ac adeiladu ar hynny dros 5 mlynedd** | Cadw safon uchel o siaradwyr a hyfforddwyr a hefyd yn cynyddu amrywiaeth ein portffolio datblygu busnes. |
| | Gofyn am awgrymiadau gan bartneriaid presennol e.e. Uzo, Tai Pawb | | |
| | Caniatau ar gyfer cyllideb amrywiaeth i gynnwys cost uwch bosibl siaradwyr/hyfforddwyr mwy amrywiol | **Blwyddyn 1** | |
| | Darparu a thyfu rhaglen ddigwyddiadau ar draws nodweddion hil, e.e. Du, mis/dyddiau hanes, gwyliau crefyddol | **Blwyddyn 3** | Mynychwyr yn cydnabod realaeth gwahanol brofiadau hiliol yn y gorffennol a'r presennol a sut y gallwn weithio i'w wella. Mynychwyr yn teimlo eu bod wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach ar faterion penodol ac yn teimlo wedi eu hysbrydoli. |
| **Ymwreiddio amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein holl gynnig i aelodau** | Diweddaru iaith rhaglen Alcemi i gynnwys llinell yn annog ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol. | **Blwyddyn 1** | Cael ein gweld fel bod yn arwain o'r tu blaen ar amrywiaeth a chynhwysiant, ac aelodau yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gyda'u gwaith eu hunain. |
| | Gwneud yn siwr fod amrywiaeth yn rhan o agenda ein Grwpiau Cyflenwi Strategol a gwneud y cyfarfodydd hyn yn hanfodol i gefnogi aelodau gyda'u gweithgaredd amrywiaeth a chynhwysiant eu hunain. | **Blwyddyn 1** | |

| Amcan | Camau Gweithredu | Amserlen | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau Dynol a Recriwtio** | | | |
| **Recriwtio staff a'r bwrdd** | Adolygu a gwella prosesau pen i ben, profiadau a chefnogaeth ar gyfer ymgeiswyr a rheolwyr. Bydd hyn yn cynnwys adolygu a gwella disgrifiadau swydd, pecynnau swydd, canllawiau ychwanegol ar gyfer rheolwyr, ystod well o ddulliau dewis ac asesu a monitro amser real ac adrodd ar ymgyrchoedd recriwtio byw | **Blwyddyn 1** | Bydd recordio data o'r manylion demograffig ar wahanol gyfnodau o'r broses gyflogi yn ei gwneud yn glir ble yn y broses gyflogi yr ydym yn colli ymgeiswyr amrywiol. Bydd gostyngiad mewn amrywiaeth ar wahanol gyfnodau yn ein galluogi i weithredu yn gydnaws â'r cam hwnnw. |
| | Ymrwymiad Gweithredoedd nid Geiriau: Buddsoddi adnoddau mewn cynlluniau gweithredu cadarnhaol sy'n anelu i wella cynrychiolaeth Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig ar lefelau sy'n dangos bylchau. Gall hyn gynnwys rhaglenni datblygu arweinyddiaeth, cyfleoedd mentora/cysgodi a chynlluniau hybu talent mewnol | **Blynyddoedd 1–3** | Ymateb yn y ffordd fwyaf addas i'r canlyniad uchod. |
| | Sicrhau bod egwyddorion amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'r hyfforddiant recriwtio a ddarparwn ar gyfer rheolwyr | **Blwyddyn 1** | Gall rheolwyr sy'n cyflogi adeiladu timau amrywiol sydd â mwy o allu i fod yn greadigol ac arloesol yn y gwaith. |
| | Sicrhau fod ymddygiad cynhwysol yn greiddiol i recriwtio a dethol ac yn parhau o'r broses gynefino drwy gydol cylch oes cyflogeion, gydag eglurdeb y gweithredir os nad oes cydymffurfiaeth | **Blwyddyn 1** | Mae aelodau newydd a phresennol o staff yn gwybod am ddiwylliant y sefydliad a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. |
| | Cynllun peilot i amrywio ein paneli recriwtio gan greu cronfa wirfoddol o gydweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig | **Blwyddyn 1** | Cael ein cyfweld gan bobl gyda gwahanol set o brofiadau a safbwyntiau ar y byd yn rhoi profiad gwell i ymgeiswyr. |
| | Ymrwymiad Gweithredoedd nid Geiriau. Peilota rheol Rooney, gan ei gwneud yn orfodol i gyfweld o leiaf un ymgeisydd Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig | **Blwyddyn 1** | Cynyddu cyfleoedd i grwpiau lleiafrif ethnig gael swyddi. |
| | Gosod targed XX% ar gyfer cynrychiolaeth staff ac arweinwyr Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig | **Blwyddyn 3** | Sefydliad sy'n fwy cywir wrth adlewyrchu demograffeg hil ac ethnigrwydd yng Nghymru yn fwy cywir. |

| Amcan | Camau Gweithredu | Amserlen | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| **Recriwtio staff a'r bwrdd** | Peilota rhestri byr dienw a thynnu cynifer o ddangoswyr rhywedd a hunaniaeth ag sy'n bosibl sy'n gweithredu fel rhwystr i gydraddoldeb | **Blwyddyn 1** | Cael gwared â rhagfarn y gwyddir amdani neu ddiarwybod ac asesu ymgeiswyr yn llwyr ar eu profiad. |
| | Hysbysebu ein swyddi gwag mewn amrywiaeth o gyfryngau hygyrch. Mae hyn yn cynnwys gweithredu ar ymrwymiad Gweithredoedd nid Geiriau Tai Pawb i fuddsoddi mewn sianeli recriwtio i sicrhau mwy o ymgeiswyr Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig | **Blwyddyn 1** | Gall mwy o ddarpar ymgeiswyr ein darganfod wrth wneud cais am swyddi, gan sicrhau fod gennym yr ystod ehangaf a mwyaf amryiol o ymgeiswyr i ddewis o'u plith. |
| **Hyfforddiant** | Ymrwymiad Gweithredoedd nid Geiriau. Hyfforddi'r holl staff a bwrdd mewn Rhagfarn Ddiarwybod a chodi ymwybyddiaeth o fraint pobl wyn, yn cynnwys cyflwyno dysgu, datblygu a chefnogi rheolwyr | **Blwyddyn 1** | Y gallu a'r hyder i wneud penderfyniadau cryfach, mwy gwybodus, atal rhagfarn a theimlo'n gysurus am ddal ein hunain ac eraill i gyfrif. |
| | Cyflwyno hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol ar amrywiaeth a chynhwysiant i'r holl staff | **Blwyddyn 1** | |
| | Gwella proses ac ymarfer i gefnogi rheolwyr llinell a gwella wrth sicrhau cysondeb mewn canlyniadau | **Blwyddyn 1** | Caiff anghenion unigol eu cydnabod ac mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac ymdeimlad o berthyn. |

| Amcan | Camau Gweithredu | Amserlen | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| **Ffyrdd/ diwylliant gweithio** | Sicrhau lle'n bosibl y gall pob cydweithiwr, lle bynnag maent yn gweithio, gymryd rhan mewn prosiectau, digwyddiadau a chynlluniau. | **Blwyddyn 1** | Caiff anghenion unigol eu cydnabod ac mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac ymdeimlad o berthyn. |
| | Sicrhau fod gennym gyfres o bolisïau i ddenu a chadw gweithlu amrywiol, yn cynnwys gweithio hyblyg a gwell polisïau mamolaeth, tadolaeth, rhannu cyfrifoldeb rhiant, mabwysiadu ac acsenoldeb salwch a llesiant. | **Blwyddyn 1** | |
| | Mesur ein cynnydd drwy gynnal arolwg ar ymdeimlad perthyn staff. | **Blwyddyn 1** | |
| | Cefnogi a hyrwyddo diwylliant lle mae staff a defnyddwyr gwasanaeth Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig ytn gysurus i leisio pryderon yn ymwneud â hil ac y cânt eu credu pan mae hyn yn digwydd. | **Blynyddoedd 1–3** | |
| | Y Prif Weithredydd, uwch reolwyr a'r bwrdd i gefnogi a hyrwyddo diwylliant cynhwysol lle mae pobl yn gysurus yn siarad am hil ac y gallant ddod â'r hunain yn gyfan i'r gwaith. | **Blynyddoedd 1–3** | |
| **Adrodd** | Gofyn i staff gwblhau arolwg data amrywiaeth, gan ei gyhoeddi ar ein gwefan ac adrodd i staff a'r bwrdd yn flynyddol. | **Blwyddyn 1** | Rydym yn sefydliad tryloyw ac atebol ac yn cymryd rôl ragweithiol wrth hyrwyddo a monitro cynnydd ar yr ymrwymiadau hyn. |
| | Ymrwymiad Gweithredoedd nid Geiriau: Rhoi adroddiad blynyddol ar ein bwlch tâl ethnigrwydd yn fewnol ac yn allanol. | **Blwyddyn 3** | |



**I gael mwy o wybodaeth neu i drafod yr adroddiad hwn, cysylltwch â Bryony Haynes, Swyddog Materion Allanol: bryony-haynes@chcymru.org.uk**